**LC356**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**The National Assembly for Wales**

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Gorchymyn Consesiynau Teithio (Estyn yr Hawl i'w Cael) (Cymru) 2001**

**Y Cefndir**

Mae'r Gorchymyn hwn yn estyn argaeledd cynlluniau consesiynau teithio mewn perthynas â gwasanaethau bysiau lleol.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Nid oes dim pwyntiau wedi'u nodi fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 11.5.

Serch hynny, nodir nad yw sylwadau'r Cwnsleriaid Seneddol wedi dod i law eto er bod y Gorchymyn drafft wedi'i gyfeirio at y Cwnsleriaid Seneddol (yn unol â'r arferion sefydlog ynghylch is-ddeddfwriaeth sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol). Ni ddylid gwneud y Gorchymyn felly nes bod y sylwadau hyn wedi dod i law ac, os ydynt yn gymwys, nes iddynt gael eu gweithredu.

Credir, mewn perthynas ag Erthygl 8, y gall y Cwnsleriaid Seneddol fod o'r farn y dylai'r is-adran (10) a fewnosodwyd gynnwys geiriau i ddangos mai at yr adran fel y'i diwygiwyd gan y Gorchymyn presennol y mae'n cyfeirio.

Mae nifer o bwyntiau teipograffyddol a phwyntiau cyffelyb wedi'u nodi ac wedi'u tynnu at sylw'r cyfreithiwr drafftio.

418

**Mick Bates AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

6 Tachwedd 2001